Dweud eich dweud
Darllenwch hwn…

Sut mae'n gweithio

Cam 1

Amgaeaf lythyr yn nodi'r hyn rwy eisoes yn ei gwybod amdanoch chi a'ch sefyllfa. Rwyf wedi esbonio sut y byddaf i'n gwneud fy mhenderfyniad ac efallai y byddaf i'n gofyn rhai cwestiynau.

Cam 2

Dylech ateb y llythyr hwn nawr. Dywedwch wrthyf a yw'r wybodaeth sydd gennyf i amdanoch chi'n gywir. Dywedwch unrhyw beth arall wrthyf i y dylwn i ei gwybod, yn eich barn chi, ac ateb unrhyw gwestiynau. Mae hyn yn bwysig gan mai dyma eich cyfle i sicrhau bod gennyf i'r holl wybodaeth y bydd ei hangen arnaf i wneud y penderfyniad iawn.

Cam 3

Pan gaf i eich ymateb, byddaf i'n gwneud fy mhenderfyniad oni bai fod angen rhagor o wybodaeth arnaf. Os na fyddwch chi'n ateb, efallai y byddaf i'n gwneud fy mhenderfyniad drwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd eisoes gennyf. Anfonaf i benderfyniad ysgrifenedig atoch ac anfon copi at Ganolfan Byd Gwaith.

irs
Independent Review Service
for the Social Fund

Pa mor hir y bydd yn ei gymryd

Po gyflymaf yr atebwch chi, po gynharaf y gallaf i wneud fy mhenderfyniad. Fel arfer bydd hyn yn digwydd cyn pen un wythnos i'ch ymateb.

Os oes unrhyw gennych unrhyw gwestiynau

Gwnawn ein gorau glas i helpu. Ffoniwch ni ar **0800 096 1926** rhwng 9.00am a 4.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener. Dylech fynd yn syth drwodd i rywun fydd yn gallu helpu. Bydd eich galwad am ddim o linell dir. Os defnyddiwch ffôn symudol, gwnawn eich ffonio yn ôl.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb drwy ffonio ar **0800 096 1926** rhwng 9.00am a 4.30pm ddydd Llun i ddydd Gwener. Bydd eich galwad am ddim o linell dir. Byddwn yn ffonio'n ôl os ydych chi'n defnyddio ffôn symudol. Fel arfer byddwch yn gallu mynd trwodd yn syth. Dyma'r ffordd gyflymaf i ymateb. Byddwn ni'n ysgrifennu eich ateb ac yn ei ddarllen yn ôl ichi. Anfonwn ni gopi o'r hyn a ddywedasoch chi gyda'r penderfyniad.

Gallwch ymateb mewn ysgrifen, **drwy ddefnyddio'r ffurflen ac amlen Ymateb a anfonwyd atoch chi.**

Os oes angen ichi siarad â ni neu ysgrifennu atom mewn iaith arall, gallwn ni drefnu hynny. Ffoniwch ni ar 0800 096 1926 a byddwn yn ei drafod gyda chi.

Os oes nam ar eich golwg neu os oes gennych broblem clywed

Os oes nam ar eich golwg ac rydych chi angen ein llythyrau yn Braille, ar dâp sain neu mewn print bras ffoniwch ni ar **0800 096 1926.**

Os ydych yn drwm eich clyw ac mae gennych fynediad at ffôn testun gallwch ein ffonio ar **0800 096 1929.**

Os oes gennych gŵyn

Os nad ydych chi'n fodlon ar unrhyw agwedd o'n gwasanaeth, mae croeso ichi gysylltu â ni. Gallwch chi ffonio am ddim ar **0800 096 1928** neu ysgrifennu atom yn Independent Review Service, Freepost.

Mae ein polisi preifatrwydd yn esbonio sut rydym yn defnyddio'r wybodaeth a roddwch inni. Mae hon ar gael ar gais ar ein gwefan yn www.irs-review.org.uk.